

Digwyddiadau yn Sir Conwy - Mehefin 2018

Ewch i'n gwefan www.visitconwy.org.uk i gael gwybodaeth am lety, gweithgareddau, atyniadau a digwyddiadau

Gardd Bodnant - Tal-y-Cafn, Bae Colwyn. Ffôn: 01492 650460. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.nationaltrust.org.uk/bodnant-garden. Prisiau mynediad arferol yn berthnasol - **18 Mehefin - Teithiau Cerdded Adar** - Dewch i wybod am adar Gardd Bodnant ar daith gerdded wedi'i thywys gan arbenigwr lleol. Rhwng 11am a 12.30pm. Mae'n rhaid archebu lle. **20 Mehefin - Taith Gerdded y Prif Arddwr** - Dewch i wybod am gynlluniau cyffrous John, y prif arddwr ar gyfer y gerddi. Rhwng 10am a 12pm. Mae'n rhaid archebu lle. Tocynnau £15.

Castell Conwy - Conwy. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 592358. Gwe: www.cadw.gov.wales/ - **21 a 22 Mehefin - Noson**

Hanes Byw - Gwaredigaeth Robin - Mae aelod ffyddlon a chefnog o'r gymuned wedi marw. Mae'r ymadawedig wedi gadael cyfres o gliwiau, llythyrau, a gwrthrychau i chi, a bydd rhaid i chi ddatrys y dirgelwch! Dewch i'r castell gyda'r hwyr i weld un o'n sioeau hanes byw ni. Yng Nghastell Conwy rhwng 6.30pm a 7.30pm a rhwng 8pm a 9pm. **23 a 24 Mehefin - The Lord Chamberlain's Men yn cyflwyno The Tempest** - Yr haf hwn, bydd The Lord Chamberlain's Men, am y 14eg flwyddyn yn olynol, yn dychwelyd i Gastell ysblennydd Conwy gyda champwaith swynol Shakespeare The Tempest - drama o farddoniaeth gain, comedi gwych a chariad mwyn. 23 Mehefin am 7.30pm a 24 Mehefin am 6.30pm. Tocynnau are gael o Venue Cymru. Ffôn: 01492 872000. Gwe: www.venuecymru.co.uk

Digwyddiadau Bywyd Gwyllt - Gwe: <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Leisure-sport-and-health/Coast-and-Countryside/Events-and-Getting-Involved/Conwy-Wildlife-Events-2018/Conwy-Wildlife-Events-2018.aspx>

- **9 Mehefin - Diwrnod Moroedd y Byd** - Dewch i gael eich rhyfeddu gan fywyd morol Traeth Pensarn! I ddathlu Diwrnod Moroedd y Byd, byddwn yn edrych ar fywyd gwyllt Gwarchodfa Natur Leol Pensarn, gyda sgwrs gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Bydd digon o weithgareddau ar y thema bywyd gwyllt, ynghyd â chasglu sbwriel ar y traeth. Wedi ei anelu at blant yng nghwmni oedolyn. Bydd y digwyddiad yma'n cael ei gyflwyno yn Saesneg yn unig. Cyfarfod ym Maes Parcio, Traeth Pensarn, Pensarn. Rhwng 1pm a 4pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Ffôn: 07736 454062
- **16 Mehefin - Sioe Gŵn Hwyllog y Gogarth** - Dewch â'ch ci i gyfarfod y defaid a mwynhewch y sioe gŵn hwyllog yn Fferm y Parc ar y Gogarth. Gyda gwobrau i'w hennill, cwrs ystwyther, arddangosiadau cneifio, gweithgareddau i'r plant a llawer mwy ... Yn Fferm y Parc, Y Gogarth, Llandudno rhwng 11am a 4pm
- **24 Mehefin - Gloynnod Byw Gwych y Gogarth** - Dewch i ymuno â Warden y Parc Gwledig ac aelodau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, i chwilio am loynnod byw (yn cynnwys glesyn serennog unigryw'r Gogarth) a gwahanol fathau o fywyd gwyllt. Taith gerdded 3 milltir anodd gyda llwybrau anwastad a serth. Bydd y digwyddiad yma'n cael ei gyflwyno yn Saesneg yn unig. Cyfarfod ger y 'West



Shore Toll House', Y Gogarth, Llandudno. Rhwng 10.30am a 3pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Ffôn: 01492 583820

MOSTYN - 12 Vaughan Street, Llandudno. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul, 10.30am i 4pm. Ffôn: 01492 879201. Gwe: www.mostyn.org - **Tan 3 Mehefin - Estella Scholes - Cylchoedd, Cerrig a Broc Môr** - Mae ein cyfres o arddangosfeydd o waith unigolion sy'n gwneud printiau cyfoes yn parhau yn Oriel 6 ag Estella Scholes. **Cip-Olwg 14** - Mae gennym ddetholiad ardderchog arall o waith gan artistiaid o Ogledd Cymru yn y caffi y tymor hwn ym MOSTYN, mewn partneriaeth gyda'r Helfa Gelf Art Trail. Nigel Morris - Sophie Scharer - Kiran Sharma - Swondonkey. Mae'r arddangosfa wedi'i guradu gan Mark Hughes, MOSTYN. **Tan 1 Gorffennaf - Shezad Dawood - Leviathan** - Mae Leviathan yn naratif episodaidd am syniadau ffiniau, iechyd meddwl a lles morol - materion o bryder ac sy'n atseinio'n ddwfn gyda lleoliadau arfordirol a bywyd heddiw. **Mike Perry - Tir / Môr** - Mae gwaith Mike Perry'n ymgysylltu gyda materion amgylcheddol dwys ac enbyd, y tensiwn rhwng gweithgareddau ac ymyrraeth dyn yn yr amgylchedd naturiol yn benodol, yn ogystal â breuder ecosystemau'r blaned.

Academi Frenhinol Gymreig - Crown Lane, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn rhwng 11am a 5pm. Ffôn: 01492 593413. Gwe: www.rcaconwy.org - **Tan 30 Mehefin - Arddangosfeydd: Angerdd i Gymru; Dafydd Lloyd Griffiths AFG a Mary Lloyd Jones AFG**. Elusen yw'r Academi Frenhinol Gymreig sydd â'r nod o greu mwynhad o gelf weledol trwy gyfrwng arddangos bywiog a rhaglen addysgol.

Gwarchodfa Natur RSPB - Ger yr A55, Cyffordd Llandudno. Mae taliadau mynediad yn berthnasol ar gyfer llwybrau'r warchodfa. Ffôn: 01492 584091. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/conwy - **1 Mehefin - Dydd Gwener Hwyllog** - Bydd digon o bethau ar gael i chwarae; sialc, swigod, troellwyr a darnau i adeiladu cuddfan! Cewch ymuno â ni unrhyw bryd rhwng 11am a 3pm, does dim angen archebu lle. Mae'r digwyddiad hwn wedi'i anelu at blant 3-8 mlwydd oed a'u teuluoedd. Nodwch fod y digwyddiad hwn yn dibynnu ar y tywydd. Digwyddiad am ddim. **2 Mehefin - Clwb Fforwyr Bywyd Gwylt** - Ymunwch â ni ar gyfer pob math o weithgareddau sy'n ymwneud â natur, a chael rhywfaint o hwyl ymarferol yn eich gwarchodfa natur leol. Wedi ei anelu at bobl ifanc rhwng 8-12 oed. Rhwng 1.30pm a 3.30pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Mae taliadau yn berthnasol. **2 a 3 Mehefin - Dyluniadau ArtlySparkly** - Arddangosfa a gwerthiant ffotograffiaeth natur, gemwaith gwydr môr ac anifeiliaid ffelt. Dewch i ymuno â ni yn y Guddfan rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim. **2, 9, 16 a 23 Mehefin - Teithiau cerdded bywyd gwylt ar ddyddiau Sadwrn** - Ymunwch â'n gwirfoddolwyr cyfeillgar a gwybodus ar daith gerdded wedi ei thywys o 11am. Mae taliadau yn berthnasol. **6, 13, 20 a 27 Mehefin - Teithiau Cerdded Gyda'r Nos yn yr Haf** - Mwynhewch daith ar nos Fercher o gwmpas y warchodfa gyda gwirfoddolwyr tywys bywyd gwylt cyfeillgar. Cyfarfod wrth y giât fynedfa i'r warchodfa am 7pm. Croeso i bawb! Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar. **10 Mehefin - Blodau Gwylt Conwy - Y 50 Uchaf** - Darganfyddwch y warchodfa gyda'r rheolwr safle, Julian Hughes, gan ddod i adnabod rhai o flodau gwylt sy'n llenwi'r warchodfa gyda lliw. Mae'r digwyddiad hwn wedi'i gyd amseru â channoedd o degeirianau yn eu blodau. Rhwng 1pm a 3.30pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Mae taliadau yn berthnasol. **11 a 12 Mehefin - Dal Gwyfynod** - Cyfle breintiedig i ddal gwyfynod yn y warchodfa gyda Julian Thompson. Gan obeithio dod o hyd i Wensgod y Cyrs neu wensgodau diddorol eraill! Yna cawn sesiwn 'dangos a dweud' pan mae'r Warchodfa'n agor am 9.30am ar fore dydd Mawrth. Am fanylion ac amseroedd yn llawn, cysylltwch â Julian ar 01492 592595. **16 Mehefin - Dewch ar Safari Pryfaid!** - Adeiladwch westy bychan i bryfaid i fynd adref a darganfyddwch fwystfilod bach y dŵr a gwair. Dewch draw rhwng 1pm a 3pm. Mae'r holl offer wedi'u darparu. Mae taliadau yn berthnasol. **17 Mehefin - Ar Sul y Tadau dewch a'ch tad i adeiladu plannwr paled!** - Byddwn ni'n darparu'r offer, coed a hadau blodau gwylt i chi blannu a mynd adref! Rhwng 11am a 12.15pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Mae taliadau yn berthnasol. **27 Mehefin - Marchnad Ffermwyr Conwy** - Cynnyrch fferm a nwyddau lleol o'r ansawdd gorau rhwng 9am a 1pm. Digwyddiad am ddim. **30 Mehefin i 8 Gorffennaf - Iechyd a Lles dros wythnos Natur** - Wythnos yn llawn gweithgareddau ar gyfer bob oed, yn cynnwys loga, Beicio (yn cynnwys beiciau balans ar gyfer y rhai bach a beiciau trydanol), Sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar, Tai Chi, Cyfeiriannu Teuluol, Gwaith Coed Gwyrdd a Gweithdai Kelly Kettle.

Theatr Colwyn - Ffordd Abergele, Bae Colwyn. Ffôn: 01492 577888/872000. Gwe: www.theatrcolwyn.co.uk - **7 i 9 Mehefin - Into The Woods** - cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau am fwy o

wybodaeth. **14 i 16 Mehefin - Curtain Up** am 7.30pm. **23 Mehefin - Tesni Jones - Little Big Voice** am 7.30pm.

Venue Cymru - Promenâd, Llandudno. Ffôn: 01492 872000. Gwe: www.venuecymru.co.uk - **29 Mai i 2 Mehefin - Son of a Preacher Man** - cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau am fwy o wybodaeth. **1 Mehefin - The Mersey Beatles a Disgo** am 7.30pm. **5 Mehefin - The Shires** am 7.30pm. **14 i 16 Mehefin - Sioe Gerdd Enwog Marc Bolan 20th Century Boy** - cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau am fwy o wybodaeth. **26 Mehefin - The Ladyboys of Bangkok - Wonder Woman Tour** am 7.30pm.

Pob dydd Llun - Ffair Grefftau CraTeaNooners - Yn cael ei gynnal pob prynhawn dydd Llun gyda chardiau lleol wedi'u gwneud â llaw, anrhegion prydfwrth wedi'u gwneud yn lleol â llaw ac arddangosiadau crefft. Lluniaeth ar gael. Croeso i bawb. Yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Mostyn Street, Llandudno rhwng 1.30pm a 4.30pm. Ffôn: 07730 499858

Pob dydd Llun tan 10 Medi - Harmony Singers - Monday Night is Music Night - Côr lleol yw'r Harmony Singers sy'n perfformio bob nos Lun o 28 Mai tan 10 Medi 2018. Mae'r côr yn perfformio cerddoriaeth amrywiol, rhywbeth i bawb. Bydd yr holl elw'n mynd at elusennau lleol a chenedlaethol. Yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Mostyn Street, Llandudno rhwng 8pm a 10pm (Drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: oedolyn £7, plentyn £3. Ffôn: 07912 292230. Gwe: www.harmonysingers.co.uk

Pob dydd Mawrth ym Mehefin - Cyngherddau Côr Meibion Llanddulas - Bydd Côr Meibion enwog a phoblogaidd Llanddulas yn perfformio cyngherddau i gyfeiliant piano a thelyn. Yn Eglwys Unedig Gloddaeth, Chapel Street, Llandudno o 8pm. Tocynnau: £5. Ffôn: 01745 823791. Gwe: www.llanddulaschoir.co.uk

Pob dydd Mawrth a dydd Iau - Cyngherddau Côr Meibion - Tan 18 Hydref. Mwynhewch sain hyfryd Cymru yn awyrgylch hardd Eglwys Sant Ioan. Yn canu yn Gymraeg a Saesneg. Yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno o 8pm. Tocynnau: £7 (Disgownt £1 ar gyfer deiliaid cerdyn preswylwyr Conwy). Ffôn: 01492 860439. Gwe: www.stjohnsllandudno.org/

Pob dydd Iau ym Mehefin - Ffair Fintej a Hen Bethau - Ffair Fintej a Hen Bethau ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Amrywiaeth eang o nwyddau ar werth i weddu pawb a phob poded. Yn Neuadd Eglwys y Santes Fiar, Holyhead Road, Betws-y-Coed rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c, plentyn dan 16 am ddim. Ffôn: 01492 518597. Gwe: www.simplythebestantiquefairs.co.uk/

Pob dydd Gwener tan 21 Rhagfyr - Marchnad Wledig Llandrillo-yn-Rhos - Gyda bara cartref, cacennau, cyffeithiau, wyau ffres, planhigion, llawer o gardiau ac anrhegion a wnaed yn greffus â llaw. Lluniaeth ar gael, croeso i bawb. Yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 10am a 12pm. Ffôn: 01492 544920

2 Mehefin - Ffair Hen Bethau a Chasglwyr - Trefnwyd gan Llewod Llandudno gydag amrywiaeth eang o eitemau ar werth gyda phrisiau sy'n addas i bawb, yn amrywio o £1 i gannoedd o bunnoedd. Bydd yr holl elw yn mynd i elusennau lleol. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c. Ffôn: 01492 870147. Gwe www.littleboroughlions.org.uk/

2 Mehefin - Diwrnod Prom Deganwy 2018 - Dewch draw ac ymunwch yn yr hwyl i'r teulu gyda theganau gwynt, stondinau crefft, bwyd a lluniaeth, sioe gŵn hwyliog, cerddoriaeth, arddangosfeydd dawnsio, gweithgareddau chwaraeon i blant a mwy... Croeso i bawb! Ar Promenâd Deganwy rhwng 11am a 4pm. Gwe: www.facebook.com/DeganwyPromDay

6 i 8 Mehefin - Rali'r Tri Chastell 2018 - Bydd pymthegfed Rali'r Tri Chastell 2018 eto wedi'i lleoli yn nhref glan môr hardd Llandudno. Bydd y cystadleuwyr yn mwynhau tri diwrnod o raliio cystadleuol mewn fformat hamddenol, arbennig. Bydd eu ceir yn teithio hyd at 500 milltir ar wynebau llyfn, gan ymweld â nifer o leoliadau gorau Gogledd Cymru a theithio ar hyd ffordd raliio gyda golygfeydd gwych. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: www.three-castles.co.uk

15 a 16 Mehefin - Cynhadledd Crefft Ysgrifennu Comedi 2018 - Mae Crefft Ysgrifennu Comedi'r DU yn ddatliad o ysgrifennu, cynhyrchu a pherfformio comedi a gynhaliwyd yn Llandudno. Yn unigryw iawn mae'n cyfuno'r digwyddiad o hel pobl broffesiynol ym myd comedi'r DU ynghyd yn flynyddol

mewn tref glan môr gyda gŵyl o ddiwyddiadau comedi yn agored i'r cyhoedd cyffredinol. Confensiwn anghonfensiynol. Ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf am y gynhadledd a'r Wyl Ymylol ewch i www.CraftOfComedy.com

16 Mehefin - Ffair Fintej a Hen Bethau - Bydd amrywiaeth o nwyddau ar werth gyda phrisiau i weddu pawb: llestri talch, gwydr, llieniau, peintiadau ac argraffiadau, llyfrau, gemwaith (gemau cain a gemau gwisgo), arian, cardiau post ac ati. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c, plant dan 16 am ddim. Ffôn: 01492 518597. Gwe: www.simplythebestantiquefairs.co.uk/

17 Mehefin - Ceir a Choffi ar y Prom - Cynhelir y digwyddiad ar drydydd dydd Sul y mis drwy'r haf, rhwng mis Ebrill a mis Medi, ar gyfer perchnogion a selogion ceir clasurol a cheir o dras. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim, felly dewch draw a chwrrd â selogion tebyg i chi i rannu straeon, brolio neu chwenychu. Croeso i bawb. Ar y Promenâd, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 9am a 2pm. Ffôn: 07962 421417. Gwe: www.facebook.com/groups/272196209803253/

17 Mehefin - Taith Merched OVO Energy - Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Gogledd Cymru wedi croesawu Taith Prydain OVO Energy i ddynion bedair gwaith, ond eleni, am y tro cyntaf, bydd beicwyr benywaidd gorau'r byd yn cael cyfle i rasio yn yr ardal. Bydd y ras bum niwrnod yn dod i ben gyda chymal 122 cilomedr anodd o Ddolgellau i bromenâd Bae Colwyn, drwy harddwch Parc Cenedlaethol Eryri. Ewch i'r wefan i weld yr wybodaeth ddiweddaraf: www.womenstour.co.uk

23 Mehefin - Digwyddiad Pêl-droed Elusennol y Lluoedd Arfog - Dewch i gefnogi cyn aelodau ac aelodau presennol y Cymry Brenhinol yn erbyn Cyn-filwyr y Fyddin; Llandudno yn erbyn y Fyddin a Merched Llandudno yn erbyn Merched y Fyddin mewn gêm bêl-droed i godi arian i 'Blind Veterans UK' a Help for Heroes. Bydd lluniaeth bar ar gael; diwrnod o hwyl i'r teulu; DJ; castell neidio; paentio wyneb; tombola a raffl. Yng Nghlwb Pêl-droed, Builder Street, Llandudno gyda drysau yn agor am 11am a'r gic gyntaf am 11.30am. Mynediad £1.

23 a 24 Mehefin - Cyfarfod y Trigolion - Dewch i gyfarfod y Teulu i gael dysgu am eu bywydau. Rhowch gynnig ar wneud marsipán neu flodeuglwm, a dewch i ddawnsio a chwarae gemau. Ym Mhlas Mawr, Stryd Fawr, Conwy rhwng 11am a 4pm. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 580167. Gwe: www.cadw.gov.wales/

29 Mehefin i 1 Gorffennaf - Her Eryri - Her gerdded yw Her Eryri, ac nid yw'n un i'r gwangalon. Mae'n brawf o wydnwch meddyliol a chorfforol a gwaith tîm a bydd yn eich cymryd ar daith o hunan-ddarganfyddiad. Digwyddiad llawn - 100km dros 3 diwrnod. Mae opsiynau o 1 a 2 ddiwrnod ar gael. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: www.breeseadventures.co.uk/what-we-do/snowdonia-challenge/

30 Mehefin - Diwrnod y Lluoedd Arfog - Bydd Diwrnod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal yn Llandudno ar ddydd Sadwrn 30 Mehefin, gyda gweithgareddau'n digwydd cyn ac ar ôl y dyddiad hwnnw. Bydd y dathliadau'n cynnwys gorymdaith, pentref digwyddiadau gydag adloniant, gweithgareddau ac arddangosiadau milwrol. Ar y Promenâd a Chaeau Bodafon, Llandudno. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: www.facebook.com/EventsConwy/

30 Mehefin i 15 Gorffennaf - Arddangosfa Haf Cymdeithas Gelfyddydau Sir Ddinbych - Arddangosfa/arwerthiant gwaith celf gan aelodau Cymdeithas Gelfyddydau Sir Ddinbych. Yn The Studio, 10 Penrhos Road, Bae Colwyn rhwng 10am a 4pm. Mynediad am ddim. Ffôn: 07808 473357. Gwe: www.dasoc.info/

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os bydd unrhyw ddiwyddiad yn cael ei ganslo neu ei ohirio. Os ydych yn trefnu digwyddiad a fydd o ddiddordeb i ymwelwyr a thwristiaid ac yr hoffech i ni ei hyrwyddo ar eich rhan, ewch i www.visitconwy.org.uk/information/get-listed. Byddwch yn cael eich cynnwys yn ôl disgrisiwn CBSC. Cynhyrchwyd gan Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, CBSC. Ffôn: 01492 575940 neu e-bost: maggie.williams@conwy.gov.uk